

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr
Tudful**
YSBRYDOLI 2 GYFLAWNI
YSBRYDOLI 2 WEITHIO

Lluniwyd yr hysbysiad hwn yn unol â Rheoliadau Cyffredinol y Ddeddf Diogelu Data a deddfwriaeth berthnasol.

Y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Lisa Richards – Swyddog Diogelu Data

Sam Bishop – Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Rebecca Walsh - Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful,
CF47 8AN Data.Protection@merthyr.gov.uk
01685 725000



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Dyddiad Creu:

25 Mai 2018

Adran â Chyfrifoldeb:

Adran Llesiant Cymunedol

Rheolwr â Chyfrifoldeb:

Jaime Spooner

Cyfeiriad:

Uned 5, Pentrebach, Merthyr Tudful, CF48 4TQ

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu gwybodaeth am sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn casglu a phrosesu eich data personol pan fyddwch yn cael mynediad at ein prosiectau Ysbrydoli. Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sy'n gyfrifol am benderfynu sut ydym yn cadw ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi. Mae'n ofynnol ein bod o dan ddeddfwriaeth diogelu data yn eich hysbysu o'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Nid yw'r hysbysiad hwn yn ffurfio rhan o unrhyw gontract i ddarparu gwasanaethau. Gallwn ddiweddarar hysbysiad hwn ar unrhyw adeg ac os felly, byddwn yn gwneud yn siŵr bod copi wedi ei ddiweddarar ar gael i chi cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

Y mae'n bwysig eich bod chi'n darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd â'n Polisi Safonau Preifatrwydd a hysbysiad preifatrwydd cyflawn sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth fanwl am ein prosesu data a gellir cael mynediad ato o'n gwefan.

Mae'r hysbysiad hwn yn benodol berthnasol i brosiectau Ysbrydoli i Gyflawni ac Ysbrydoli i Weithio. Caiff y prosiectau hyn eu hariannu'n gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE). Mae prosiectau Ysbrydoli yn gweithredu o nifer o leoliadau ledled y fwrdeistref, ond yn bennaf y Ganolfan Dysgu Cymdogol a Chanolfan Addysg Cymunedol Pen-y-dre.

1. GWYBODAETH BWYSIG A PHWY YDYM NI

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r rheolwr sy'n gyfrifol am eich data personol. Llywodraeth Cymru yw corff gweinyddol y CGE; Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn derbyn yr arian yn uniongyrchol oddi wrth Lywodraeth Cymru ac yn ei ddyrannu i'n Cyngor. Caiff y Cyngor ei lunio o wahanol adrannau, a gellir dod o hyd i fanylion amdanynt ar ein gwefan. Pan fyddwn yn cyfeirio at yr Adran, at y Timau Prosiect sy'n gyfrifol am brosesu eich data y byddwn yn cyfeirio atynt, a daw hyn yn glir i chi pan fyddwch yn cael mynediad at yr Adran hon ar gyfer gwasanaethau.

Mae'r hysbysiad hwn yn gymwys i ddefnyddwyr gwasanaeth ein Hadran Llesiant Cymunedol sy'n cynnwys pobl ifanc hyd at 25 oed. Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig i'r rheiny sy'n cael mynediad at brosiect Ysbrydoli i Gyflawni wedi eu hanelu at unigolion rhwng 11 ac 19 oed. Mae'r Gwasanaethau a gynigir i'r rheini sy'n cael mynediad at brosiect Ysbrydoli i Weithio ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu â'r swyddog gan ddefnyddio'r manylion isod:

Lisa Richards (Swyddog Diogelu Data)

Cyfeiriad: Tîm Llywodraethu Gwybodaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN
E-bost: data.protection@merthyr.gov.uk
Ffôn: 01685 725000

2. Y DATA RYDYM YN EI GASGLU AMDANOCH CHI

Gallwn gasglu, defnyddio, cadw a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch chi fel a ganlyn:

- Data adnabod a chyswllt fel enw, cyfeiriad, rhif ffôn, dyddiad geni, oedran a rhyw er mwyn cysylltu â chi ynghylch y gwasanaeth yr ydych yn cyfranogi ynddo.
- Rhifau adnabod fel eich rhif yswiriant cenedlaethol i'ch cynorthwyo chi i gwblhau ffurflenni cais neu eich helpu yn ariannol.
- Data ariannol, fel incwm y teulu neu ddata budd-daliadau er mwyn cynorthwyo defnyddwyr ein gwasanaeth i gael y cymorth ariannol sy'n ofynnol ganddynt.
- Data cyflogaeth ac addysg fel yr ysgol neu goleg yr ydych yn ei fynychu yn cynnwys a ydych mewn risg o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) (gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd NEET) neu a ydych chi'n gweithio ar hyn o bryd. Rydym ni hefyd yn cadw manylion am eich cymwysterau neu a oes angen cymorth arnoch i gael cymwysterau neu fynediad i goleg.
- Data ffordd o fyw fel eich crefydd neu ethnigrwydd neu fonitro cyfleoedd cyfartal. Rydym ni hefyd yn gofyn am wybodaeth sy'n berthnasol i'ch cefndir teuluol ac a oes gennych gyfrifoldebau gofalu.
- Data iechyd - rydym yn gofyn am wybodaeth sylfaenol i sefydlu a oes yna reswm meddygol pam na allwch ymgysylltu ag addysg a chyflogaeth, neu a allai cyflwr eich iechyd effeithio ar eich gallu i sicrhau cyflogaeth.
- Data am droseddau os fyddwch wedi ein hysbysu o unrhyw euogfarnu troseddol neu os ydych yn gadael y carchar byddwn yn gofyn am fanylion eich trosedd er mwyn diogelu ein staff.

Rydym yn esbonio'r gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd i gasglu data amdanoch chi oddi fewn i'r hysbysiad hwn.

3. SUT YR YDYM YN DEFNYDDIO EICH DATA PERSONOL

Byddwn yn casglu eich data personol mewn nifer o ffyrdd, yn bennaf oddi wrthyhych chi, sy'n cael eich dosbarthu fel defnyddiwr ein gwasanaethau. Byddwn yn gofyn i chi gwblhau Ffurflen Ymrestru Cyfranogwr ar gyfer y ddau Brosiect Ysbrydoli er mwyn i'r Gwasanaeth eich cofrestru chi fel defnyddiwr gwasanaeth. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn derbyn cyfeiriadau at ein Hadran oddi wrth eich rhieni neu ofalwr, eich ysgol neu goleg os oes ganddynt reswm i feddwl bod angen cefnogaeth ychwanegol arnoch i gael cymwysterau neu sicrhau cyflogaeth. Ceir sefyllfaoedd pan allai prosiectau eraill oddi fewn i Adran Llesiant Cymunedol y Cyngor gyfeirio ar eich rhan; caiff hyn ei wneud pan fo'r gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny yn unig. Mae'r Adran hefyd yn gweithio'n agos at Yrfa Cymru, yr Adran Waith a Phensiynau, a sefydliadau trydydd parti eraill a restrir isod, a allai hefyd gyfeirio ar eich rhan.

Caiff cyfeirio ei wneud drwy ddefnyddio'r ffurflenni dynodedig a'u cyflwyno i'r Adran a leolir yng Nghanolfan Dysgu Cymunedol Pen-Y-Dre. Ar ôl derbyn y ffurflen gyfeirio byddwch yn cael eich asesu. Mae meini prawf asesu Ysbrydoli i Weithio yn gweithredu ar system reng; 1 yw risg uchel a 5 yw dim risg o fod yn NEET. Rhaid eich ystyried fel NEET er mwyn cael eich ymrestru oddi fewn i Ysbrydoli i Weithio. Mae meini prawf asesu ar gyfer Ysbrydoli i Gyflawni yn gweithredu yn ôl system goleuadau traffig, coch yw'r risg uchel a gwyrdd yw dim risg o NEET. Rhaid i chi fod yn goch er mwyn cael eich ymrestru ag Ysbrydoli i Gyflawni.

Mae'r data personol rydym yn ei dderbyn yn cael ei drosglwyddo i'n system electronig sef CAPITA One, sydd ond yn cael ei ddefnyddio fel pecyn cymorth dynodi cynnar. Caiff mynediad at y system hon ei gyfyngu, dim ond personél wedi eu hawdurdodi a all weld, diwygio neu ddileu eich data.

Dim ond er mwyn darparu'r gwasanaeth rydych yn gofyn amdano y byddwn yn defnyddio'ch data personol. Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod ni'n gallu eich ymrestru chi ar Brosiectau Ysbrydoli. Byddwn yn rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen arnoch i chi yn ystod yr amser y byddwch yn ei dreulio yn y Prosiect. Byddwn yn sicrhau eich bod yn derbyn gwybodaeth berthnasol am sut y gallwn eich cefnogi chi yn ystod ymrestru.

Dim ond pan fydd y gyfraith yn caniatáu hynny y byddwn ni'n defnyddio eich data personol. Byddwn yn defnyddio eich data personol o dan yr amgylchiadau canlynol:

1. Pan fyddwn wedi derbyn eich caniatâd i ddarparu gwasanaethau penodol fel ymateb i ac ystyried unrhyw gwynion a wnaed gennych chi neu eich cynrychiolwyr ynghylch y gwasanaeth rydych wedi ei dderbyn.
2. Pan fydd angen i ni gydymffurfio â goblygiadau cyfreithiol o dan y cyfreithiau canlynol
Deddf Dysgu a Sgiliau (2000)
Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006
Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

3. Ble y bo'n angenrheidiol er budd y cyhoedd neu at ddibenion swyddogol fel darparu ffurflenni ystadegau treth i Lywodraeth Cymru, ac i'n galluogi ni i gyfrannu at yr ymrwymadau a wnaed gan Strategaeth Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb a Strategaeth Genedlaethol Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru- 2014-2018 a Strategaeth Symud Cymru Ymlaen 2016-2021
4. Ble y bo'n angenrheidiol ar gyfer ein buddion cyfreithlon (neu rai trydydd parti) a'ch buddion a'ch hawliau sylfaenol chi i ddamsang y buddion hynny.

Mae cyfranogi yn y prosiect yn wirfoddol. Noder y gallwn brosesu eich gwybodaeth bersonol heb i chi wybod na rhoi caniatâd pan fo hynny'n ofynnol neu wedi ei ganiatáu yn ôl y gyfraith.

4. SUT YR YDYM YN RHANNU EICH DATA PERSONOL

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich data personol ar draws yr Adran Llesiant Cymunedol er mwyn eich darparu â'r gefnogaeth sy'n ofynnol gennych. Byddwn hefyd yn rhannu eich data yn fewnol ledled Adrannau eraill y Cyngor a hefyd â thrydydd parti'on allanol sy'n cynnwys:

Y Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg ac ADY
Adran Llesiant Cymunedol
Gwasanaethau Plant
Pontydd At Waith
Ysgol Uwchradd Afon Taf
Ysgol Uwchradd Cyfarthfa
Ysgol Uwchradd Pen-Y-Dre
Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley
Ysgol Arbennig Greenfields
Consortiwm Canolbarth y De
Gyrfa Cymru
Coleg Merthyr Tudful
Coleg y Cymoedd
Coleg Gwent
Consortiwm Hyfforddi Tudful
Dysgu wrth Weithio Coleg Merthyr Tudful
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Sefydliad Gellideg
Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Cwm Taf
Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith +
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen y Bont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen

Byddwn yn rhannu data dienw, ystadegol a setiau cyflawn o ddata personol ar sail chwarterol o ran eich cyfranogiad yn y prosiectau a ddarparwyd gan y Gwasanaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent gan mai nhw yw'r awdurdod arwain ar gyfer Prosiectau Ysbrydoli. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn rhannu'r wybodaeth hon â Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil a dadansoddi ystadegol a berfformiwyd er mwyn gwella'r gofal a'r cymorth a ddarperir i bobl yng Nghymru. O ran y data cyfleoedd cyfartal rydym yn ei gasglu oddi wrthy'ch chi rydym yn gweithredu fel is-brosesydd ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.

Caiff Prosiectau Ysbrydoli eu hariannu gan yr Undeb Ewropeaidd; ni fyddwn yn trosglwyddo eich data i unrhyw wledydd y tu allan i'r UE. Os fyddwn, yna byddwn yn eich hysbysu ynghylch hynny cyn gynted ag sy'n bosibl a gallwch ddisgwyl cyfradd debyg o ddiogelu mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol.

5. AM BA MOR HIR FYDDWN NI'N DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH A'I CHADW'N DDIOGEL

Dim ond am mor hir ag sy'n angenrheidiol y byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol er mwyn cyflawni'r dibenion y gwnaethom ei chasglu, gan gynnwys dibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, ariannol neu adrodd yn ôl. Mae'n ofynnol i Dderbynwyr Grantiau CGE ddarparu cofnodion fel tystiolaeth fod y costau mae'n eu hawlio yn cydsynio â'r rheoliadau, rheolau a thelerau perthnasol y Cytundeb Ariannu, i alluogi'r Awdurdod Rheoli i gyflawni ei oblygiadau adrodd yn ôl ac i arddangos cydymffurfiaid â gofynion yr Undeb Ewropeaidd.

Felly, mae'n ofynnol bod Prosiectau Ysbrydoli yn cadw'r wybodaeth am o leiaf ddwy flynedd ar ôl i Lywodraeth Cymru gyflwyno'r Adroddiad Rheoli Blyneddol ble y caiff y gwariant terfynol ar gyfer prosiect a gyflawnwyd ei gynnwys. Er mwyn isafu risg camgyfrifo a chefnogi Derbynwyr Grant a'r Awdurdod Rheoli i symleiddio'r broses, rhaid i holl brosiectau o dan Raglen CGE 2014-2020 sicrhau eu bod yn cadw'r holl ddogfennau am 10 mlynedd ar ôl i'w hawliad olaf CGE gael ei dalu gan Lywodraeth Cymru.

Mae manylion cyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau o'ch gwybodaeth bersonol ar gael yn ein Polisi Rheoli Cofnodion sydd ar gael ar ein gwefan (www.merthyr.gov.uk).

Rydym wedi rhoi mesurau diogelwch priodol yn eu lle i atal eich gwybodaeth bersonol rhag mynd ar goll yn ddamweiniol, rhag cael ei defnyddio neu rhag cael mynediad ati mewn modd diawdurdod, neu ei haddasu neu ei datgelu. Yn ychwanegol, rydym yn cyfyngu mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r cyflogaion hynny, asiantaethau, contractwyr a thrydydd partïon sydd angen gwybod ar gyfer busnes. Dim ond yn ôl ein cyfarwyddyd ni y byddan nhw'n prosesu eich gwybodaeth bersonol a byddant yn amodol ar ddyletswydd cyfrinachedd.

Rydym wedi gosod gweithdrefn mewn lle i ddelio ag unrhyw dorcyfraith a ddrwgdybir o ran diogelwch data a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys o unrhyw dorcyfraith a ddrwgdybir ble y mae gofyniad cyfreithiol i ni wneud hynny.

6. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

Mewn rhai amgylchiadau, mae gennych hawliau o dan gyfreithiau diogelu data sy'n ymwneud â'ch data personol. Mewn rhai amgylchiadau, yn gyfreithiol gallai fod gennych yr hawl i'r canlynol:

- **Cais am fynediad** at eich gwybodaeth bersonol (a elwir yn "cais am fynediad at bwnc data"). Mae hyn yn eich galluogi chi i dderbyn copi o'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei chadw amdanoch chi a gwirio ein bod yn ei phrosesu'n gyfreithlon.
-

- **Cais am gywiro'r** data personol rydym yn ei chadw amdanoch chi. Mae hyn yn eich galluogi chi i gywiro unrhyw wybodaeth anghyflawn neu anghywir yr ydym yn ei chadw amdanoch chi.
- **Cais am ddileu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi chi i ofyn i ni ddileu neu symud unrhyw wybodaeth bersonol, pan nad oes yna reswm da dros barhau i'w phrosesu. Mae hefyd gennych yr hawl i ofyn i ni ddileu neu symud eich data personol ar ôl i chi ddefnyddio eich hawl i wrthwynebu ei brosesu (gweler isod).
- **Gwrthwynebu prosesu** eich data personol pan fyddwn yn dibynnu ar ddi-ddordeb cyfreithiol (neu rhai trydydd parti) a bod yna rywbeth am eich sefyllfa bersonol sy'n eich gwneud chi eisiau gwrthwynebu'r prosesu ar y sail honno. Mae hefyd gennych yr hawl i wrthwynebu pan rydym yn prosesu eich data personol at ddibenion marchnata penodol.
- **Cais i gyfyngu ar brosesu** eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn eich galluogi chi i ofyn i ni atal prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, er enghraifft os ydych am i ni sefydlu ei chywirdeb neu'r rheswm dros ei phrosesu.
- **Cais trosglwyddo** eich gwybodaeth bersonol i barti arall.

Os oes gennych unrhyw bryderon am sut mae'r Cyngor yn prosesu eich gwybodaeth bersonol neu os ydych chi'n creu nad yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r hawliau hyn, gallwch gwyno i Swyddog Diogelu Data y Cyngor gan ddefnyddio'r manylion uchod. Mae gennych hefyd yr hawl i gwyno ar unrhyw adeg i'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth, sef awdurdod goruchwyllo'r DU ar gyfer materion diogelu data:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru)

Yr 2ail Lawr
8399

Ffôn: 029 2067 8400

Ffacs: 029 2067

Tŷ Churchill
Rhodfa Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

E-bost: casework@ico.org.uk

7. MANYLION PELLACH

Os ydych yn edrych am ragor o wybodaeth ynghylch y modd yr ydym yn prosesu eich data personol, gan gynnwys diogelu data, cadw data a phrosesu cyfreithiol, edrychwch ar ein polisi preifatrwydd llawn.